Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Aelod Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

## Disgrifiad o'r Swydd

**1 Atebolrwydd**

- I'r Cyngor Llawn
- Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**2 Diben y Swydd a'r Gweithgareddau**

- **Deall natur y pwyllgor archwilio**
    - Bod yn ymwybodol o'r rôl y pwyllgor a chynnal rôl y pwyllgor yn effeithiol wrth:
        - Dynodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
        - Adolygu'r ddarpariaeth staff, llety ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, gan sicrhau bod y rhain yn ddigonol
        - Cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r cyngor llawn mewn perthynas â'r uchod
        - Penodi is-bwyllgorau a chadeiryddion is-bwyllgorau i gynnal swyddogaethau a ddirprwyir gan y pwyllgor
        - Ystyried adroddiadau a baratowyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
        - Datblygu cymorth aelod a strategaeth ddatblygu'r Awdurdod
        - Sicrhau bod gan aelodau fynediad at lefel resymol o hyfforddiant a datblygiad fel y'i disgrifiwyd yn strategaeth datblygu aelodau'r Awdurdod ac yn Siarter Cymorth a Datblygu Aelodau Cymru.
        - Sicrhau bod cyllideb ddigonol ar gyfer datblygu aelodau
        - Sicrhau bod gan aelodau fynediad at gynllunio datblygiad personol ac adolygiadau datblygiad personol blynyddol
    - Bod â gwybodaeth dechnegol, cyfreithiol a gweithdrefnol ddigonol i gyfrannu'n deg ac yn gywir at swyddogaeth y pwyllgor

- Sicrhau manylder a gwrthrychedd wrth dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd a materion cyn y cyfarfod

- **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

  - Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd y pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

  - Gwneud penderfyniadau call a chytbwys o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a phartneriaethau**

  - Sicrhau gonestrwydd penderfyniadau pwyllgor a'i rôl ef/hi drwy lynu at y Cod Ymddygiad ac unrhyw ofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill

  - Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da'r Cyngor a'i waith

  - Deall swyddi aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y Gwasanaethau Democrataidd

**3. Gwerthoedd**

Bod wedi ymrwymo a dangos y gwerthoedd canlynol yn gyhoeddus:

- Bod yn agored ac yn dryloyw
- Gonestrwydd ac unplygrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd